

At Weinidogion Cymru,

### Dyletswyddau Adrodd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

Yn unol â'r dyletswyddau o dan adran 3(7) Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, gweler isod adroddiad Dinas a Sir Abertawe ar lefel y defnydd o lwybrau teithio llesol.

Bydd y data'n amrywio rhwng awdurdodau; felly mae'r templed yn dangos enghreifftiau o'r mathau o ddata y gellid eu defnyddio.

Nifer y Llwybrau Teithio Llesol presennol	Mae Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd y Cyngor yn gosod y cyfanswm fel a ganlyn: Llwybrau beicio ar y ffyrdd - 7.7km Llwybr defnydd a rennir gerllaw'r ffordd gerbydau - 4.9km Llwybr defnydd a rennir oddi ar y ffordd gerbydau - 42.3km Cyfanswm: 54.9km
Data llinell sylfaen 2016	Roedd gan y cyngor 19 o gownteri beicio sefydlog yn 2016.  Cynhwysir data o'r pum cownter mwyaf blaenllaw isod. Mae'r swm yn dangos nifer y beicwyr sy'n mynd heibio'r cownter bob dydd ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn: Lido Blackpill - 431 Ffordd Fabian - 317 Heol Pont y Cob - 281 Pont Trafalgar - 173 Heol Ystumllwynarth - 331
Pa ddata sydd ar gael yn eich awdurdod lleol i gofnodi defnydd?	Mae'r cyngor yn berchen ar 20 o gownteri beicio ac yn eu cynnal mewn lleoliadau ar draws y rhwydwaith beicio.  Gwneir cyfrifau â llaw i gynorthwyo gyda datblygu'r cynllun, ond yn anaml y caiff y rhain eu hailwneud, felly ni ellir eu defnyddio er mwyn cymharu.
Data newydd yn 2017	Cynhwysir data o'r pum cownter mwyaf blaenllaw isod. Mae'r swm yn dangos nifer y beicwyr sy'n mynd heibio'r cownter bob dydd ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn: Lido Blackpill - 718 Ffordd Fabian - 307 Heol Pont y Cob - 211 Pont Trafalgar - 120 Heol Ystumllwynarth - 346
Pa ddata fydd ar gael i gefnogi	Mae nifer o'r cownteri sefydlog wedi dechrau camweithio yn ystod y 12 mis diwethaf a bydd y rhain yn cael eu newid cyn yr adroddiad nesaf.

fersiwn nesa'r adroddiad hwn?	
-------------------------------	--

Rwy'n cadarnhau y caiff yr adroddiad hwn ei gyhoeddi ar-lein a bydd ar gael hefyd fel copi caled o ofyn amdano, yn unol â'r Canllaw Cyflenwi statudol.

Prif Weithredwr